Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r ffioedd am wasanaethau iechyd planhigion statudol a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru a Lloegr

**Mawrth 2018**

© Hawlfraint y Goron 2018

Caniateir ichi ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3. Gellir gweld y drwydded hon yn www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu drwy e-bostio PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn

www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni

yn: FeesandChargesConsultation@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4

Crynodeb o'r ymatebion ..... 5

- Archwilio mewnforion ..... 5
- Samplu a phrofi tatws a gaiff eu mewnforio o'r Aifft a Libanus ..... 6
- Ardystio tatws hadyd ..... 6
- Pasbortio planhigion ..... 8
- Trwyddedu iechyd planhigion ..... 9
- Ardystio allforion ..... 10
- Ardystio deunydd lluosogi ffrwythau ..... 14

Y ffordd ymlaen ..... 14

Atodiad: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ..... 16

# Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd gan Defra a Llywodraeth Cymru, yn ceisio barn ar y newid arfaethedig i'r strwythur codi tâl a'r ffioedd am y gwasanaethau iechyd planhigion canlynol a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA):

- Archwilio planhigion a deunydd planhigol a fewnforir
- Samplu a phrofi tatws a fewnforir o'r Aifft a Libanus
- Ardystio tatws hadyd
- Pasbortio planhigion
- Trwyddedu iechyd planhigion
- Ardystio allforion
- Ardystio deunydd lluosogi ffrwythau

Roedd y cynigion yn ymwneud â newid sut yr ydym yn codi tâl am y gwasanaethau hyn. Nid yw cwmpas a natur y gwasanaethau hyn yn newid a bydd eu swyddogaeth bwysig yn parhau, sef diogelu iechyd ein cnydau, ein cynnyrch, ein coed a'n planhigion.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio casglu gwybodaeth am effaith y cynigion ar fusnesau, gan gynnwys busnesau bach a microfusnesau.

Mae'r cynigion yn deillio o adolygiad sylfaenol a gychwynnwyd gan Defra ac APHA yn 2015, o'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r gost o ddarparu'r gwasanaethau hyn a'r strwythurau ffioedd cysylltiedig. Nodau'r adolygiad oedd y canlynol:

- sicrhau bod y fethodoleg gostau yn cynnwys yr holl gostau cymwys, ac yn darparu sail gadarn a hirdymor ar gyfer codi tâl am y gwasanaethau, sydd hefyd yn gyson â chyflawni amcan y Llywodraeth o adfer y gost lawn.

- gwella symlrwydd, tryloywder a thegwch y ffioedd, yn ogystal ag edrych am ffyrdd gwahanol o adfer costau'r gwasanaethau, er mwyn i'r ffioedd gyfateb yn well i'r gost o gyflenwi'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

Mae Defra yn gwario oddeutu £13.5 miliwn bob blwyddyn ar weithgareddau iechyd planhigion, gan gynnwys darparu gwasanaethau i fusnesau, darparu gwyliadwriaeth a rheoli achosion o blâu ac afiechydon. Yn 2016/17, £5.75 miliwn o'r cyfanswm hwn oedd y gost o ddarparu gwasanaethau statudol y codir tâl amdanynt.

Estynnwyd gwahoddiad i ystod eang o sefydliadau masnach â buddiant i ymateb, ynghyd â bron i 2500 o fusnesau unigol sydd wedi'u cofrestru i ddefnyddio gwasanaethau iechyd planhigion.

# Crynodeb o'r ymatebion

## Archwilio mewnforion

Dyma'r newidiadau arfaethedig i'r pecyn o ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn:

1) Cyfuno'r ffioedd ar wahân am wiriadau dogfennol a'r gwiriadau adnabod yn un ffi o £9.71.

2) Disodli'r dull o godi tâl ar sail meintiau gan ddull o godi tâl am archwiliadau ffisegol sy'n fwy seiliedig ar y gost, sef codi ffi safonol am bob math o nwyddau, beth bynnag fo maint y llwyth. Lle bo archwiliadau llai dwys yn berthnasol yn achos llwythi risg is (o wledydd lle ceir tystiolaeth eu bod yn parhau'n rhydd o blâu ac afiechydon), byddai'r ffi archwilio fesul llwyth yn cael ei ostwng mewn modd cymesur.

3) Cyflwyno ffi ar wahân o £157.08 i adfer costau profion labordy pan gymerir samplau gan archwilwyr APHA oherwydd amheuaeth fod pla neu afiechyd niweidiol yn bresennol.

4) Caiff y ffi ychwanegol am archwiliadau y tu allan i 'oriau busnes arferol' ei diddymu a dosrennir costau'r gweithgarwch hwn ar draws yr holl ffioedd am archwiliadau ffisegol.

Defnyddiodd oddeutu 1,010 o fusnesau wasanaethau archwilio mewnforion yn 2016/17.

Daeth 8 ymateb i law gan y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau archwilio mewnforion - 3 gan sefydliadau masnach (sy'n cynrychioli cyfanswm o oddeutu 57,000 o aelodau) a 5 gan fusnesau unigol, yr oedd 4 ohonynt yn fusnesau bach a chanolig ac yr oedd 1 yn gwmni mawr.

Roedd un corff masnach yn cefnogi'r cynigion yn fras - yn enwedig y ffi newydd am brofion labordy yn achos nwyddau amheus, symleiddio'r mecanwaith codi tâl ac alinio costau â'r defnydd o'r gwasanaeth. Roedd yn awyddus i APHA barhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd drwy ystyried dulliau amgen.

Roedd corff masnach arall yn feirniadol o'r effaith ar ei aelodau, gan fod y mwyafrif ohonynt yn ficrofusnesau. Tybir y bydd y ffioedd newydd hyn yn cael effaith negyddol ar y busnesau hynny, gan na fyddant yn gallu ymdopi ag unrhyw gostau ychwanegol.

O'r 5 ymateb gan fusnesau unigol, dywedodd 4 y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith ariannol cymedrol ar eu busnes, a dim effaith neu effaith fach iawn ar weithrediadau busnes. Dywedodd 3 o'r 4 y byddent yn ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn bennaf drwy leihau elw. Dywedodd y llall y byddai'n debygol o drosglwyddo'r costau i'w gwsmeriaid.

Cafwyd ymatebion cymysg o ran tegwch, symlrwydd a thryloywder y cynigion, ond ymateb negyddol a gafwyd ar y cyfan.

O’r busnesau a ymatebodd, roedd pob un o’r farn y byddai effaith fawr neu gymedrol ar fusnesau bach, cystadleurwydd yn y sector a chyfeintiau masnach. Er na fyddem yn dymuno effeithio’n andwyol ar fasnach o’r fath, o safbwynt bioddiogelwch, nid yw’r risg o gyflwyno organebau niweidiol wedi’i lliniaru gan faint y busnes neu gyfaint y deunydd a gaiff ei fewnforio. Y mathau o nwyddau a fewnforir a’u tarddiad yw’r prif ffactorau risg.

Cynigiwyd rhai awgrymiadau o ffyrdd amgen o godi tâl:

- Codi’r ffi wirioneddol ar sail y cyfaint a fewnforir – Nid ydym o’r farn fod hwn yn ddewis gwell gan mai codi tâl yn ôl cyfaint yw’r sail ar gyfer y ffioedd cyfredol ac nid yw’n alinio’n agos â’r adnodd sydd ei angen i archwilio llwyth o nwydd penodol ac nid yw’n bodloni egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus.

- Dylai ffioedd ystyried y ffactorau risg sy’n gysylltiedig â llwythi mwy o faint o risg uwch – Nid ydym o’r farn fod hwn yn ddewis dilys gan nad yw maint y llwyth yn ffactor wrth bennu’r risg i iechyd planhigion.

## Samplu a phrofi tatws a fewnforir o’r Aifft a Libanus

O dan y fethodoleg gostau newydd, bydd y ffi yn cael ei gostwng ar gyfer pob lot a gaiff ei samplu a’i brofi. Defnyddiodd 5 busnes y gwasanaeth hwn yn 2016/17.

Yr unig ymateb a gafwyd ynglŷn â’r gwasanaeth hwn oedd gan gorff masnach a oedd yn poeni na ddylai’r ymdrech archwilio leihau. Ni fydd unrhyw newidiadau i gwmpas y gwasanaeth hwn, a fydd yn parhau i gael ei ddarparu yr un mor drylwyr.

## Ardystio tatws hadyd

Bwriad y newidiadau arfaethedig i’r pecyn ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn oedd safoni a symleiddio’r ffioedd presennol a gwella tegwch. Hefyd, roedd y cynigion yn ceisio sicrhau gostyngiadau i gostau trwy enillion effeithlonrwydd a newidiadau i’r fethodoleg gostau. Y cynigion oedd:

1) Ffi newydd ar gyfer samplu a phrofion pridd PCN. Byddai’r tâl newydd hwn yn dileu’r cymhorthdal cyhoeddus sydd ar gyfer y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.

2) Newid cost archwiliadau yn y maes yn ystod y tymor tyfu ar gyfer stoc cyn sylfaenol a stoc sydd wedi’i gymeradwyo o fod yn gost wedi’i seilio ar amser i fod yn gost wedi’i seilio ar hectarau. Y nod yw safoni’r dull o godi tâl am archwiliadau tatws hadyd yn ystod y tymor tyfu a symleiddio’r strwythurau ffioedd.

3) Newid y ffi archwilio ar gyfer cloron a gynaeafwyd o fod wedi’i seilio ar hectarau i fod wedi’u seilio ar amser, i wella symlrwydd.

4) Cyflwyno ffi ar wahân ar gyfer dosbarthu labeli wedi'u hargraffu. Bydd yn rhaid i dyfwyr sy'n argraffu eu labeli eu hunain dalu am labeli gwag, a byddant yn destun archwiliad blynyddol o gofnodion cynhyrchu labeli. Bydd cost yr archwiliad hwn wedi'i chynnwys yn y ffi labeli.

5) Cyflwyno ffi newydd ar gyfer prosesu ceisiadau papur, sy'n adlewyrchu'r gost o roi ceisiadau ar-lein.

Defnyddiodd 58 o fusnesau wasanaethau ardystio tatws hadyd yn 2016/17.

Daeth 9 o ymatebion i law gan y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau ardystio tatws hadyd – 4 gan gyrff masnach (sy'n cynrychioli cyfanswm o ryw 56,000 o aelodau) a 5 gan fusnesau unigol, â phob un yn BBaCh.

Roedd 1 corff masnach o'r farn y byddai lleihau ffioedd ar gyfer archwilio yn y maes yn ystod y tymor tyfu yn helpu i liniaru'r ffi newydd ar gyfer samplu a phrofion pridd PCN.

Derbyniodd 1 corff masnach yr holl newidiadau arfaethedig ond roedd o'r farn y byddai'r ffioedd newydd ar gyfer prosesu ceisiadau papur a labeli yn effeithio'n anghymesur ar dyfwyr bach. Cytunodd 1 busnes unigol fod y ffi newydd ar gyfer prosesu ceisiadau papur yn annheg, o ystyried nad oedd y system ar gyfer gwneud ceisiadau ar-lein yn hawdd ei defnyddio a bod gwasanaeth band eang yn wan mewn rhai ardaloedd gwledig.

Roedd 3 chorff masnach ac 1 busnes unigol o'r farn bod y costau labeli arfaethedig yn rhy uchel ac y byddai hyn yn effeithio'n arbennig ar y rheiny sy'n allforio bagiau bach neu feintiau bach.

Dywedodd 2 gorff masnach y byddai'n well ganddynt system gostau gyffredin ledled y DU gyfan oherwydd bod eu haelodau yn gweithredu ar lefel y DU. Roedd un o'r farn hefyd fod y system ardystio tatws hadyd sydd ar waith yn yr Alban yn fwy effeithlon ac y dylid ei hefelychu yng Nghymru a Lloegr.

Roedd 1 corff masnach yn cwestiynu sut yr oedd y newidiadau arfaethedig yn gyson â buddiant y llywodraeth o ran hybu allforion.

Roedd 1 corff masnach ac 1 busnes unigol yn cwestiynu'r cynnig i godi fesul hectar ar gyfer archwiliadau yn y maes yn ystod y tymor tyfu oherwydd y byddai hyn yn arwain at godi gormod a chosbi am waith treialu ar amrywiaethau newydd.

O'r 5 ymateb gan fusnesau unigol, dywedodd 3 y byddai'r cynigion yn arwain at effaith ariannol fawr, dywedodd 1 y byddai'r effaith yn fach a dywedodd 1 na fyddai unrhyw effaith o gwbl. O ran effeithiau gweithredu a gweinyddu, dywedodd 2 y byddai'r effaith yn fawr, 2 y byddai'r effaith yn gymedrol a dywedodd un y byddai'r effaith yn fach. Dywedodd 3 y byddai cynnydd cyffredinol mewn costau iddynt, ac o'r rheiny, dywedodd 2 y byddent yn rheoli hyn trwy leihau'r elw; ni fyddai cynnydd mewn costau i 2 ohonynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr na fyddai unrhyw effaith ar gydymffurfiaeth â rheolau iechyd planhigion (75%) ond y byddai effaith fawr neu gymedrol ar fantais gystadleuol ar draws y sector (75%) ac ar fusnesau bach (60%).

O ran tegwch, o'r 4 ymateb a gafwyd gan fusnesau unigol i'r cwestiwn hwn, dywedodd 3 fod y ffioedd yn decach a dywedodd un i'r gwrthwyneb. Dywedodd 2 fusnes fod y ffioedd yn symlach ac yn fwy tryloyw a dywedodd 2 i'r gwrthwyneb.

Holodd un busnes pam y mae'n rhaid i archwilwyr APHA gymryd y samplau PCN a pham na all eraill wneud hyn, fel ymgynghorwyr agronomeg.

Cynigwyd rhai awgrymiadau o ffyrdd eraill o godi tâl am wasanaethau:

- Gellid lleihau'r gwasanaeth cyffredinol i archwilio cynhyrchwyr trwyddedig a gellid trosglwyddo'r holl gyfrifoldebau am archwilio a chydymffurfiaeth â rheolau'r cynllun dosbarthu tatws hadyd i dyfwyr achrededig. – Rydym ni o'r farn y gellid ystyried hyn yng ngham nesaf y gwaith ar ffioedd a chostau.

- Gellid adfer yr holl gostau trwy'r ffioedd archwilio yn ystod y tymor tyfu a'r ffioedd archwilio cloron, ynghyd â mentrau cymhelliant i dyfwyr argraffu labeli. – Rydym yn ystyried bod hyn yn mynd yn groes i'r dull o alinio ffioedd yn agosach at gost darparu'r gwasanaeth i gwsmeriaid unigol.

## Pasbortio planhigion

Y prif newid a gynigiwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn oedd cywiro sut y cyfrifir y ffi fesul awr er mwyn ei gosod ar y lefel ofynnol i adfer costau llawn y ddarpariaeth. Byddai ffioedd ar gyfer ymweliadau archwilio yn cynyddu am bob chwarter awr a gaiff ei dreulio ar safle, ac felly'r ffi isaf am bob ymweliad. Byddai'r newidiadau hyn yn dileu'r cymhorthdal cyhoeddus o ryw £180,000 y flwyddyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer y gwasanaeth hwn. O ystyried y cynnydd yn y ffioedd hyn, rydym yn cynnig eu cyflwyno'n raddol mewn tri cham er mwyn adfer y costau llawn erbyn mis Ebrill 2019, er mwyn cefnogi busnesau a rhoi amser iddyn nhw gynllunio a pharatoi.

Hefyd, rydym yn cynnig ffi newydd ar gyfer trin a phrosesu ceisiadau papur i basbortio planhigion, er mwyn adlewyrchu'r gost o roi'r ceisiadau ar-lein.

Defnyddiodd oddeutu 760 o fusnesau wasanaethau pasbortio planhigion yn 2016/17.

Ymatebodd un corff masnach (ag oddeutu 55,000 o aelodau) a 13 o fusnesau unigol, bob un yn BBaCh (a 10 o'r rhain yn ficrofusnesau), i'r ymgynghoriad.

Cydnabu'r corff masnachol y gwaith y mae Defra wedi'i wneud i ddod o hyd i arbedion a lleihau costau, ond roedd o'r farn bod y cynnydd arfaethedig i'r ffioedd yn annerbyniol, yn arbennig yn yr hinsawdd bresennol. Dylid ystyried oedi gweithrediad hyn o gofio'r ansicrwydd sydd ar hyn o bryd ynglŷn ag ymadael â'r UE.

O'r 13 o fusnesau unigol a ymatebodd, dywedodd 4 y byddai'r cynigion yn arwain at effaith ariannol fawr, dywedodd 7 y byddai'r effaith yn gymedrol, dywedodd un y byddai'r effaith yn fach ac un na fyddai unrhyw effaith o gwbl.

O’r 13 o fusnesau a ymatebodd i gwestiwn ynghylch a fyddai eu costau yn cynyddu, atebodd 9 i ddweud y byddai eu costau yn cynyddu. O'r rhai a ymatebodd y byddai eu costau yn cynyddu, roedd lleihau elw (78% o’r rhai a ymatebodd i’r dewis hwn) a lleihau costau eraill (60% o’r rhai a ymatebodd i’r dewis hwn) yn ffyrdd tebygol o reoli’r cynnydd yn y gost.

Dywedodd 2 fusnes y byddai’r newidiadau arfaethedig yn arwain at effaith gweithredu a gweinyddu fawr, dywedodd 4 y byddai’r effaith yn gymedrol a 2 y byddai’r effaith yn fach. Roedd 4 yn ansicr.

O ran yr effeithiau ehangach, dywedodd hanner yr ymatebion fod cydymffurfio â gwasanaethau iechyd planhigion yn debygol o ddirywio’n gymedrol a dywedodd y lleill na fyddai neu eu bod yn ansicr. Roedd y rhan fwyaf o’r farn y byddai effaith fawr neu gymedrol ar fusnesau bach ac ar fantais gystadleuol; ac roedd oddeutu hanner yn ansicr ynglŷn â’r effaith ar gyfaint masnach.

Dywedodd 7 busnes nad oedd y ffioedd yn decach a dywedodd 4 nad oedden nhw’n gwybod. Dywedodd 2 fusnes fod y ffioedd yn symlach ac yn fwy tryloyw a dywedodd 4 i’r gwrthwyneb. Dywedodd 5 nad oedden nhw’n gwybod.

Gofynnodd un busnes pam yr oedd yn rhaid cynnal archwiliad o waith papur ar y safle. A fyddai modd gwneud hyn ar-lein yn hytrach er mwyn arbed costau/ffioedd?

Cynigiwyd rhai awgrymiadau o ffyrdd eraill o godi tâl am wasanaethau:

- Costau llai i fusnesau bach. – Mae costau presennol ac arfaethedig wedi’u seilio ar amser, felly bydd archwiliadau meithrinfeydd bach yn cymryd llai o amser felly bydd y gost yn llai nag i feithrinfeydd mwy.

- Archwilio cofnodion ar-lein yn hytrach nag ymweld â’r safle. – Yn ogystal ag archwilio gwaith papur, mae’r archwiliad blynyddol hefyd yn cynnwys adolygiad cyffredinol o weithgarwch pasbortio, gan gynnwys gwirio a yw’r person cyfrifol yn y feithrinfa yn pasbortio’n gywir, felly mae angen ymweld â’r feithrinfa. Fodd bynnag, yn rhan o gam nesaf y gwaith ar ffioedd a chostau, byddwn yn edrych ar ba un a ellid ymweld â rhai meithrinfeydd unwaith y flwyddyn yn hytrach na dwywaith y flwyddyn.

## Trwyddedu iechyd planhigion

Yn dilyn adolygiad o sut y caiff gwasanaethau trwyddedu eu darparu, rydym wedi dileu’r broses adnewyddu trwydded flynyddol a’r ffi gysylltiedig ac yn ei lle, rydym wedi cyflwyno proses lawer symlach, sy’n cynnwys cyflwyno llythyron awdurdod blynyddol yn hytrach na ffi adnewyddu trwydded lawn.

Er bod y newid hwn yn y broses wedi lleihau’r gost o ddarparu gwasanaethau trwyddedu, mae costau ychwanegol wedi’u hychwanegu at y gost sylfaenol i roi ystyriaeth i’r costau y mae’r llywodraeth yn eu talu ar hyn o bryd. O ganlyniad i hyn, cynigiwyd y dylid cynyddu’r ffioedd trwyddedu gwyddonol eraill, a dileu’r terfyn teithio o ddwy awr ar gyfer ymweliadau archwilio.

O ystyried y cynnydd mewn ffioedd, rydym yn cynnig cyflwyno'r cynnydd yn raddol trwy dri cham, er mwyn gallu adfer y costau llawn erbyn mis Ebrill 2019.

Hefyd, rydym yn cynnig egluro cwmpas trwyddedu yn y ddeddfwriaeth codi tâl er mwyn sicrhau bod y ceisiadau a'r archwiliadau a'r costau cysylltiedig yn adlewyrchu arferion trwyddedu presennol ac yn y dyfodol.

Roedd 277 o ddeiliaid trwyddedau iechyd planhigion yn 2016/17.

Ymatebodd un corff masnach (ag oddeutu 55,000 o aelodau) a 4 busnes unigol, 3 yn BBaCh ac un yn gwmni mawr, i'r ymgynghoriad. Dim ond un o'r 4 ymateb unigol ddaeth gan ddeiliad trwydded iechyd planhigion.

Roedd y corff masnach yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig oherwydd eu bod yn symleiddio'r ffioedd ac oherwydd y dylai dileu'r broses adnewyddu flynyddol unioni'r cynnydd mewn ffioedd eraill dros amser.

Er y dywedodd y deiliad trwydded y byddai effaith ariannol fach, cafwyd darlun cymysg gan y tri busnes arall, wrth iddynt nodi lefelau gwahanol o effaith (roedd un yn ansicr). Adlewyrchwyd yr atebion hyn yn yr ymateb ynglŷn ag effaith weithredu.

Roedd o leiaf un busnes wedi dweud bod pob opsiwn i reoli'r cynnydd yn y gost yn debygol, ond lleihau elw a lleihau costau eraill oedd y dewisiadau mwyaf tebygol ar y cyfan.

Nododd 75% o fusnesau na fyddai unrhyw effaith ar gydymffurfio â rheolau iechyd planhigion, dywedodd 50% y byddai effaith fach yn unig ar fusnesau bach a dywedodd 75% y byddai effaith ar faint o fasnach sydd yn y sector.

O ran tegwch, ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr fod y ffioedd yn decach, dywedodd un nad ydynt yn decach a dywedodd 3 nad oedden nhw'n gwybod. O ran gwella symlrwydd a thryloywder, dywedodd 2 fusnes fod y ffioedd yn symlach/mwy tryloyw a dywedodd 2 i'r gwrthwyneb.

## Ardystio allforion

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys cynyddu ffioedd ar gyfer ymweliadau archwilio i gywiro tanadfer ariannol blaenorol, wrth i allforwyr dderbyn cymhorthdal cyhoeddus o ryw £700,000 y flwyddyn. Gwnaethom hefyd gynnig newidiadau i'r pecyn ffioedd i symleiddio sut yr ydym yn codi tâl am wasanaethau. Roedd y cynigion fel a ganlyn:

1) Newid y strwythur ffioedd ar gyfer ymweliadau archwilio o ran ceisiadau ar gyfer tystysgrifau allforio a phennu'r gyfradd fesul awr i adfer y costau llawn, fel a ganlyn:

   - (parhau â) ffi fesul awr ar gyfer ymweliadau archwilio y codir tâl amdanynt fesul chwarter awr, â ffi leiaf o hanner awr; a

   - ffi ar wahân ar gyfer pob sampl a brofir; a

- ffi ar wahân ar gyfer dosbarthu’r dystysgrif.

2) Ar gyfer arolygiadau archwilio o archwiliadau grawn awdurdodedig, byddai’r ffi yn newid o fod yn ffi sefydlog am bob ymweliad i fod yn ffi ar sail amser a godir am bob chwarter awr, ag isafswm o hanner awr yr ymweliad.

3) Newid y strwythur ffioedd ar gyfer archwiliadau cyn allforio a phennu cyfradd fesul awr i adfer y costau llawn fel a ganlyn:

   - (parhau â) ffi fesul awr ar gyfer pob ymweliad archwilio wedi’i bennu ar gyfer pob chwarter awr, â ffi leiaf, a

   - ffi ar wahân ar gyfer pob sampl a brofir.

4) Newid y strwythur ffioedd ar gyfer cyflwyno tystysgrifau ffytoiechydol lle nad oes angen ymweliad archwilio, fel a ganlyn:

   - byddai pob ymgeisydd yn talu cost dosbarthu’r dystysgrif, a

   - phan fo’r cais yn gofyn am brawf labordy hefyd, byddai cost ychwanegol am bob sampl a brofir.

5) Cyflwyno ffi newydd ar gyfer profi samplau allforion mewn labordy, yn arbennig llwythi o hadau, pan fo’r gofynion profi a bennir gan y wlad fewnforio yn fwy llym nag ar gyfer profion allforion arferol mewn labordy.

6) Ffi newydd o £14.76 i adfer y gost o ddiwygio tystysgrif ar ôl ei dosbarthu ar gais yr allforiwr.

7) Cadw’r trefniant cyfradd ostyngol a’r llywodraeth yn talu’r diffyg canlyniadol yn yr incwm. Wrth gyflwyno’r cynigion ffioedd allforio, cost gweithredu’r consesiwn hwn oedd £22,000 yn 2016/17.

8) Ffi newydd o £14.76 ar gyfer trin a phrosesu ceisiadau papur er mwyn adlewyrchu’r gost o roi’r ceisiadau ar-lein. Mae’r costau staff hyn wedi’u gwasgaru ar draws y ffioedd ar gyfer ardystio allforion ar hyn o bryd. Mae’r newid hwn yn gydnaws â pholisi’r llywodraeth o fod yn ddigidol yn bennaf. Yn 2016/17, cafwyd 7,309 o geisiadau ar-lein a 7,372 o geisiadau papur.

O ystyried y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer y gwasanaethau sy’n ymwneud ag allforio a/neu’r newidiadau yn y ffordd yr ydym yn cynnig codi tâl am wasanaethau yn 1) i 5) uchod, gwnaethom gynnig cyflwyno’r cynnydd yn y costau am y gwasanaethau hyn yn raddol er mwyn rhoi amser i fusnesau gynllunio a pharatoi. Byddai’r ffioedd yn cael eu cyflwyno mewn tri cham er mwyn adfer costau llawn erbyn mis Ebrill 2019. Byddai’r cynigion eraill yn cael eu gweithredu ym mis Ebrill 2018.

Gofynnwyd hefyd am sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd amgen o sicrhau bod gwybodaeth sy’n ymwneud ag allforion ar gael i fusnesau â’r nod o leihau costau darparu’r cyngor hwn ac felly’r ffioedd ar gyfer gwasanaethau allforio eraill.

Defnyddiodd oddeutu 640 o fusnesau wasanaethau allforio yn 2016/17.

Daeth ymatebion i law gan 3 chorff masnach (ag oddeutu 57,000 o aelodau) a 28 o fusnesau unigol, ac roedd 24 o'r rhain yn BBaCh a 4 ohonynt yn fusnesau mawr.

Roedd yr holl gyrff masnachol yn feirniadol o'r newidiadau arfaethedig.

Roedd 2 gorff masnachol a 6 busnes unigol o'r farn bod cynyddu costau yn groes i nod y llywodraeth o wneud economi'r DU yn economi allforio a masnachu. Dywedodd y cyrff masnachu y byddai'r newidiadau yn rhwystro gallu busnesau i dyfu allforion, ac o ganlyniad i hyn, gallai economi/tyfwyr y DU fod dan anfantais gystadleuol. Byddai allforion yn dechrau bod yn anhyfyw yn ariannol a byddai nifer o gwmnïau allforio yn ceisio symud rhannau o'u busnesau dramor. Dywedodd 4 busnes unigol y bydden nhw'n symud eu gweithrediadau y tu allan i'r DU ac yn gweithredu o aelod-wladwriaethau arall.

Roedd un corff masnachol yn poeni'n arbennig am y gost arfaethedig am bob sampl a brofir, a oedd yn debygol o arwain at rai allforion yn dod i ben neu'n trosglwyddo i wlad dramor. Awgrymwyd amrywiaeth o ddulliau eraill. Roedd un busnes unigol hefyd o'r farn y byddai costau profi yn waharddol, yn arwain at golli archebion, yn gweithredu fel rhwystr masnach i fusnesau ac yn cosbi allforwyr ac ymchwilwyr bach. Byddai allforwyr yn y DU yn dechrau methu â chystadlu â rhai mewn aelod-wladwriaethau eraill.

Roedd 2 gorff masnach a 3 busnes unigol yn feirniadol o'r gwasanaethau ardystio allforion a ddarperir.

Dywedodd 20 o fusnesau unigol y byddai'r cynigion yn arwain at effaith ariannol; dywedodd 4 y byddai'r effaith yn gymedrol. Dywedodd 15 y byddai'r newidiadau strwythurol i'r ffioedd yn arwain at effaith fawr ar weithredu a gweinyddu busnes, dywedodd 5 y byddai'r effaith yn gymedrol; dywedodd y gweddill y byddai'r effaith yn fach, na fyddai dim effaith neu eu bod yn ansicr.

O'r 27 o fusnesau a ymatebodd i gwestiwn ynglŷn â pha un a fyddai eu costau yn cynyddu, atebodd 26 ohonynt y byddai'r costau yn cynyddu. O'r rheiny a ymatebodd y byddai'r gost yn cynyddu; roedd lleihau elw (70% o'r rhai a ymatebodd i'r opsiwn hwn) a lleihau'r defnydd o wasanaethau iechyd planhigion (57% o'r rhai a ymatebodd i'r opsiwn hwn) yn ffyrdd tebygol o reoli'r cynnydd mewn costau.

Dywedodd ychydig yn fwy na thraean yr ymatebwyr (35%) na fyddai effaith ar gydymffurfio â rheolau iechyd planhigion. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr y byddai effaith gymedrol neu fawr ar fusnesau bach (70%), mantais gystadleuol ar draws y sector (64%) a chyfaint y fasnach yn y sector (62%).

Nid oedd y rhan fwyaf o'r busnesau unigol a ymatebodd yn ystyried bod y ffioedd arfaethedig yn decach, yn symlach nac yn fwy tryloyw.

Gofynnodd 3 busnes unigol i gael eu heithrio o'r ffioedd ardystio allforion ar gyfer sefydliadau ymchwil sy'n gweithio â chyfeintiau bach gyda gwledydd datblygol ac ar gyfer allforion yn gyffredinol wrth allforio i farchnadoedd datblygol.

Cynigiwyd awgrymiadau ar gyfer ffyrdd eraill o godi tâl am wasanaethau:

- Cadw pethau mor syml â phosibl, e.e. un opsiwn prisiau sy'n cynnwys cyflwyno'r dystysgrif ffytoiechydol neu un gost safonol i bob llinell ar bob tystysgrif. – Mae'n rhaid i APHA ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ardystio allforion (e.e. tystysgrifau a roddir gyda neu heb archwiliad neu gyda neu heb brawf labordy) i fodloni gofynion y gwledydd mewnforio.

- Lleihau costau trwy:

  Cwmnïau awdurdodedig ac wedi'u harchwilio yn cymryd eu samplau eu hunain gan ddefnyddio samplwyr hadau trwyddedig. – Rydym eisoes yn ystyried hyn, er y byddai gan APHA swyddogaeth archwilio o hyd a ffioedd cysylltiedig.

  Cwmnïau yn trefnu eu profion eu hunain ar gyfer afiechydon firws a bacteriol â chost i'w hunain, ond yn eu dewis o labordy o restr o labordai cymeradwy yn y DU a'r UE. – Gallem ni ystyried hyn yng ngham nesaf y gwaith ar ffioedd a chostau.

  Byddai canlyniadau profion afiechydon o'r profion uchod yn cael eu derbyn ar gyfer pob lot sy'n deillio o'r lot gwreiddiol a brofwyd, felly ni fyddai angen talu costau am ragor o samplu neu brofion. – Mae hyn ar waith eisoes.

- Graddfa symudol o gostau â gostyngiadau i gwsmeriaid sy'n allforio mwy. – Ni fyddai hyn yn cysylltu'r gost â'r gwasanaeth a ddarperir a byddai'n cosbi allforwyr bach.

- Darparu gwasanaethau ardystio allforion am ddim i helpu allforion. – Mae'n bolisi llywodraeth y DU i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn gyhoeddus. Y dull safonol yw pennu ffioedd i adfer y costau llawn am ddarparu'r gwasanaeth.

- Costau wedi'u seilio ar ganran o werth yr allforion. – Ni fyddai hyn yn cysylltu'r gost â'r gwasanaeth a ddarperir.

- Eithrio sefydliadau ymchwil sy'n gweithio gyda chyfeintiau bach er budd y cyhoedd mewn gwledydd datblygol. – Byddwn yn ystyried hyn yng ngham nesaf y gwaith ar ffioedd a chostau.

- Eithriadau posibl ar gyfer allforio i'r marchnadoedd datblygol. - Rydym o'r farn y byddai'n anodd diffinio beth yw marchnadoedd datblygol a phryd y maen nhw'n peidio â bod yn ddatblygol.

- Archwiliad cychwynnol i bennu a oes angen i'r busnes brofi cynhyrchion ar sail y broses weithgynhyrchu. – Pennir yr angen am ardystiad ffytoiechydol gan y gwledydd sy'n mewnforio.

## Ardystio deunydd lluosogi ffrwythau

Y newid arfaethedig oedd creu ffi statudol yn lle’r tâl a godir ar gyfer y cynllun gwirfoddol presennol, ond byddai’r ffi yn aros ar yr un lefel â’r cynllun gwirfoddol ar gyfer 2017. Mae APHA yn cynnal arolwg arall o gostau ac incwm â’r nod o addasu lefel y ffi statudol ar gyfer 2018.

Defnyddiodd 10 o fusnesau y cynllun gwirfoddol yn 2016/17.

Ymatebodd un corff masnach drwy ddweud ei fod yn fodlon â chadw’r lefel gostau bresennol ar gyfer 2018/19 ond yn gofyn am esboniad ynglŷn â pham yr oedd yn debygol o gynyddu yn 2019/20.

# Y ffordd ymlaen

Mae Defra a Llywodraeth Cymru yn croesawu’r wybodaeth a’r awgrymiadau adeiladol a ddarparwyd gan ymatebwyr. Mae llawer o adborth defnyddiol wedi dod i law gan grŵp eang o bartïon â buddiant. Rydym wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus yng nghyd-destun adfer costau llawn a’r gwelliannau a gynigir gan y fethodoleg gostau newydd a’r newidiadau arfaethedig i’r ffioedd, gan gynnwys alinio’r costau yn well â chost darparu’r gwasanaeth i bob cwsmer.

Er ein bod yn deall pam yr hoffai rhai rhanddeiliaid weld y cynnydd mewn ffioedd yn cael ei ohirio o ystyried yr ansicrwydd a geir ar hyn o bryd yn sgil ymadawiad y DU o’r UE, a’r farn y gall cynyddu ffioedd i allforwyr fynd yn groes i nodau’r llywodraeth o annog allforio, mae risg sylweddol i’r rhaglen iechyd planhigion gyffredinol yn sgil gohirio’r cynnydd mewn ffioedd. Byddai gohirio’r camau i adfer costau llawn ar gyfer gwasanaethau statudol sy’n ymwneud ag iechyd planhigion yn ei gwneud yn ofynnol i ddod o hyd i gyllid o wasanaethau presennol er mwyn pontio’r bwlch, a fyddai’n arwain at oblygiadau negyddol i’r gwasanaethau y codir tâl amdanynt a’r gwaith a ariennir yn gyhoeddus ar wyliadwriaeth a dileu sy’n rhoi sicrwydd i dyfwyr o ran iechyd planhigion. Mae’n bwysig felly yr ymdrinnir â’r diffyg mewn adfer costau cyn gynted ag y bo modd.

Dylid hefyd egluro, hyd yn oed ar adeg pan fo pwysau economaidd difrifol ar gyllid cyhoeddus, fod y llywodraeth yn ymrwymo cyllid sylweddol (oddeutu £7.95 miliwn y flwyddyn) i faes iechyd planhigion, ac nad yw’r arian hwn yn cael ei adfer drwy ffioedd. Mae hyn yn cynnwys oddeutu £3 miliwn y flwyddyn i gefnogi ymchwil a datblygu ym maes plâu ac afiechydon planhigion.

O gofio’r holl ystyriaethau perthnasol, mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bwrw ymlaen â gweithredu’r ffioedd newydd a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer yr holl wasanaethau, ond â rhywfaint o newidiadau i’r cynigion ar gyfer gwasanaethau ardystio allforion.

Byddai’r ffioedd newydd ar gyfer yr holl wasanaethau yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2018, ac eithrio’r rheiny ar gyfer ymweliadau archwilio pasbortio planhigion a rhai gwasanaethau trwyddedu gwyddonol. Rydym yn bwriadu cyflwyno’r rhain yn raddol mewn tri cham, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, er mwyn cefnogi busnesau a rhoi amser iddynt gynllunio a pharatoi. Yn sgil y cyflwyno graddol hyn, bydd costau’n cael eu

hadfer yn llawn erbyn mis Ebrill 2019. Byddai hyn yn golygu felly bod 50% o’r cynnydd mewn ffioedd yn berthnasol ym mis Ebrill 2018; 25% ym mis Hydref 2018 a’r 25% sy’n weddill ym mis Ebrill 2019.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar gynnig am ffi newydd ar gyfer profion labordy ar samplau allforion, yn arbennig llwythi o hadau, y mae’r gofynion profi a nodir ar eu cyfer gan y wlad sy’n mewnforio yn fwy llym na’r profion labordy arferol sy’n ymwneud ag allforion. Er ein bod yn bwriadu codi tâl am y profion arbenigol hyn ar hadau yn y dyfodol, yn dilyn rhagor o drafodaethau â Fera, rydym wedi dod i’r casgliad bod angen i ni wneud rhagor o waith ar sut yr ydym yn strwythuro’r ffioedd hyn, felly rydym yn gohirio gweithredu’r ffioedd hyn nes bod gennym ddata gwell ar gostau 2017/18.

Er mwyn rhoi amser i fusnesau baratoi ar gyfer y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer gwasanaethau ardystio allforion a’r newidiadau i sut yr ydym yn bwriadu codi tâl am ymweliadau archwilio, y mater o dystysgrifau ffytoiechydol a phrofion labordy ar samplau, rydym yn bwriadu eu cyflwyno’n raddol fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Caiff y ffioedd eu cyflwyno mewn tri cham er mwyn adfer y costau’n llawn erbyn mis Ebrill 2019 (bydd 50% o’r cynnydd mewn ffioedd yn berthnasol ym mis Ebrill 2018; 25% ym mis Hydref 2018 a’r 25% sy’n weddill ym mis Ebrill 2019).

Bydd y newidiadau sy’n weddill i’r ffioedd am wasanaethau ardystio allforion (ffioedd newydd i adfer y gost o ddiwygio tystysgrif ar ôl ei dosbarthu ar gais yr allforiwr, ac am drin a phrosesu ceisiadau papur) ar waith ym mis Ebrill 2018.

Rydym yn cydnabod bod mwy yn amlwg y gellid ei gyflawni trwy sicrhau gwelliannau ac arbedion mewn gwasanaethau iechyd planhigion y codir tâl amdanynt a bydd y gwaith hwnnw yn parhau, gan gynnwys gyda diwydiant trwy’r tasgluoedd presennol. Yn arbennig, bydd cam nesaf y gwaith yn mynd i’r afael â nifer o faterion a fydd yn helpu i leihau cost gwasanaethau allforio. Bydd hyn yn cynnwys adolygu’r gyfradd consesiwn ar gyfer gwasanaeth allforio; nodi dewisiadau a dulliau eraill o ddarparu a lleihau cost cyngor allforio; pa un ai awdurdodi labordai nad ydynt yn swyddogol y gallai allforwyr eu defnyddio ar gyfer profi, ac, i’r rhai sy’n pasbortio planhigion, ystyried a ellid lleihau nifer yr ymweliadau archwilio os yw’r feithrinfa wedi’i sicrhau (e.e. trwy’r Cynllun Sicrwydd Iechyd Planhigion sydd ar y gweill) ac, i fewnforwyr, sut yr ydym yn codi tâl am gyflenwadau cymysg.

# Atodiad: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd

Bennett Potatoes Ltd
Blackmore & Langdon Ltd
Botanica
Breeders Seeds Ltd
Bridgemere Nurseries
Cymdeithas Cacti a Phlanhigion Suddlon Prydain
Cymdeithas Fasnachu Tatws Prydain
Cymdeithas Brydeinig y Bridwyr Planhigion
CN Seeds Ltd
Cygnet Potato Breeders Ltd
Drointon Nurseries
D S Morris & Son Ltd
Dynamite Baits
East Hays Farming Ltd
Elsoms Seeds Ltd
Equatorial Plant Co
F.G. Rowland Ltd
Floranova Ltd
Consortiwm Cynnyrch Ffres
Genus Plant Sourcing
Greenseed
Greenyard Fresh France
G.V.Bale (gb-online.co.uk)
H Nichols & Son
Halls of Heddon
Heaselands Garden Nursery
Holmwood Nurseries
Cymdeithas Crefftau Garddwriaethol
James Stockdale Ltd
Kernock Park Plants
Kuehne Nagel
Liners & Young Plants Ltd
Malting and Malt Roasting
Millview Nurseries
MM Flowers
Moles Seeds
Mr Forthgill's Seeds Ltd
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Oat Services Ltd
O A Taylor & Sons Bulbs Ltd
Cymdeithas y Fasnach Ddyfrol Addurniadol
Paul Jasper Trees
Cymdeithas y Proseswyr Tatws
Poulshot Nurseries
Roger Parsons Sweet Peas
Roy Clarke (Potatoes) Ltd
Rush Group Ltd
S Halgarth Ltd
Shropshire Sarracenias

Springwood Nurseries
Surreal Succulents
Taylors of Harrogate
Thompson & Morgan
Tozer Seeds Ltd
Tregrehan Garden
University of Birmingham
University of Nottingham
Weasdale Nurseries Ltd
Wholesale Horticultural Seed Suppliers
Witheridge Garage
Worldwide Fruit Ltd
YHSPGAL